"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1887. [RHIF 68.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Cwrtaith Foesol	73
A yw Addysg Fydol yn Allu Moesol?	76
O arwain fi, Arglwydd	80
Myned ar i waered	80
Geiriau Olaf Cristion	84
Nodynau Gwasgarog	85
Gautama Bwda	91
Manion a Hanesion	94
Marwgofion	96

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1887. [RHIF 68.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

CWRTAITH FOESOL.

Y MAE y llith hwn yn cael ei amcanu yn benaf i ddynion ieuainc. Ddynion ieuainc, y mae eich bywydau etto o'ch blaen. A ydych yn sylweddoli y fath beth ardderchog a chalonogol yw y meddwl am fywyd, etto heb ei fyw?

Dywedodd Sais enwog, yr hwn oedd lawer gwaith wedi ennill yr anrhydedd uwchaf allasai ei genedl ei roddi iddo, "Byddai'n well genyf fod yn gardotyn o fachgen deunaw oed, a'm bywyd etto o'm blaen, na bod yn Arglwydd Fair Llundain yn bedwar ugain." Y fath beth ardderchog yw hi i ddechreu bywyd, a gwneyd allan o hono y peth pur, nerthol, uchel, dewr hwnw, yr hyn y dylai pob bywyd fod.

Ond braidd y mae'r ardderchawgrwydd ag sydd mewn dechreu bywyd yn fwy nâ'r difrifoldeb sydd ynddo. Y mae cynnifer o fywydau ag oeddynt yn addaw'n dda ar y dechreu wedi troi allan yn fethiant. Nis gallaf lai nâ rhoddi i mi fy hunan y gofyniad, Pa nifer o honoch chwi, fy narllenwyr ieuainc, sydd yn myned i wneyd rhywbeth teilwng allan o'ch bywydau?

Y mae un perygl ag sydd yn fwy nâ'r holl ereill yn eich gwaith yn myned allan ar hyd eich llwybrau anmhrofedig. Y perygl yw i chwi beidio gosod eich safon foesol yn ddigon uchel. Peidiwch ofni bod yn rhy onest; peidiwch ofni bod yn rhy ddidwyll mewn gair a bywyd; peidiwch ofni bod yn rhy ffyddlon i ddyledswydd, neu yn rhy dyn yn eich ymlyniad wrth yr hyn ydych chwi yn ei ystyried yn iawn. Bydd y perygl i gyd ar yr ochr arall. Ni wnaeth un dyn, ar ddiwedd ei fywyd, edifarhau am ei fod wedi bod mor dda; ond mae miliynau wedi galaru gyda dagrau chwerwon am nad oeddent wedi bod yn well.

Bydd i chwi gyfarfod â dynion a wnant awgrymu fod rhy wedd yn werthfawr, ond i chwi beidio cael gormod o hono; gwell gadael llawer

iawn o hono i fenywod, neu os i ddynion, o leiaf i ddynion fyddont wedi rhedeg yn y blaen mewn dyddiau. Er mwyn i ddyn ieuanc fwynhau ei hunan, neu hyd y nod lwyddo'n y byd, y mae'n rhaid iddo beidio bod yn rhy ofalus gyda golwg ar ei egwyddorion.

Yr wyf yn dywedyd wrthych, ddyn ieuanc, mai o ddiafol y mae'r fath beth a hyna, os oes unrhyw beth yn y byd hwn o ddiafol. Ac os gwnewch chwi wrando, chwi a gewch allan yn rhy ddiweddar mai o ddiafol y mae. Ni feddiannodd neb erioed ormod o rinwedd. Yn hytrach nag ymadael â'ch egwyddorion, y mae'n well i chwi ymadael â'ch bywyd. Os nad ellwch fwynhau eich hunan, a bod yn ddyn, gellwch fod yn sicr nas gellwch wneyd wrth fod yn unrhyw beth llai nâ dyn. Os nad ellwch lwyddo'n y byd a bod yn ddyn, yna, penderfynwch y gwnewch chwi'n anrhydeddus a dewr fethu, ond y gwnewch chwi o leiaf fod yn ddyn. Ffieiddiwch bob llwyddiant a gamenwir felly, yr hwn y bydd yn rhaid ei brynu ar draul un *iota* o'ch dynoliaeth.

Byddwch yn ddigon dewr—ïe, ac yn ddigon doeth hefyd, i gymmeryd y geiriau hyn fel arwyddair eich bywyd:—

> Nid yw o fawr pwys b'le cefais fy ngeni,
> Pa un ai cyfoethog neu dlawd fy rhieni;
> A oeddynt wrthddrychau gwawd dynion ffroenuchel,
> Neu rodient yn malchder eu cyfoeth yn ddyogel:
> Ond a wyf yn wastad yn onest fucheddu,
> Ac wrth fy uniondeb yn gadarn yn glynu;
> 'Rwy'n dweyd wrthych frawd, mor groew ag y gallaf,
> Mae hyn o'r pwys mwyaf.

Cadwch eich hunan-barch. Byddwch byw mor ddifrifol, mor onest, mor ddewr (o herwydd ni fu oes erioed yn galw yn fwy uchel am ddynion dewr nâ'r oes hon), fel nas gallwch lai nâ pharchu eich hunan. Ac os bydd i chwi, ag sydd yn adnabod eich hunan oreu, barchu eich hunan mewn gwirionedd, nid oes eisieu i chwi ofni na fydd i ereill ddyfod yn ddigon buan i'ch parchu hefyd. Mae ar y byd eisieu pobl i barchu. Y drafferth yw nad yw yn gallu cael hanner digon o ddynion y medr eu parchu; o herwydd ni wna barchu *shams*. Y mae weithiau'n cymmeryd arno ei fod, ond nid yw. Penderfynwch y gwnewch chwi fyw yn y fath fodd, fel y ca'r byd achos i'ch parchu.

Beiddiwch fod yn ddidwyll. Beiddiwch ddywedyd yr hyn ydych yn ei feddwl, os bydd i chwi ddywedyd dim. Beiddiwch fod y chwi eich hunain. Beiddiwch fod yn dlawd. Byddwch yn anfeidrol fwy ofnus o garictor *shabby* nag o gôt *shabby*.

"Uwch pob peth, bydd i ti dy hun yn *drue;* ac yna, rhaid, fel nos yn dylyn dydd, nis gelli brofi'n ffug i neb rhyw ddyn." Na fyddwch yn llygad-wasanaethwyr. Gwnewch eich gwaith mor dda, ac yn mhob ffordd, byddwch mor ffyddlon, pan na fyddo neb yn eich gweled, [illegible] y byddoch o dan lygaid ereill. Byddwch ofalus a chydwybodol i gyd-fynd eich ymrwymiadau. Os bydd i ddyn eich siomi, nid yw hyn yn un rheswm paham y dylech chwi ei siomi ef y tro nesaf. Os

bydd i ddyn ymddwyn yn anonest atoch chwi, nid yw hyn yn un cysgod o reswm dros i chwi geisio bod yn anonest yn ol. Os bydd i arall wneyd yr hyn nad yw'n iawn, nid yw hyn ond rheswm ychwanegol dros i chwi wneyd yr hyn sydd iawn. Os bydd arall yn *scamp*, ac yn teilyngu'r crogbren, nid oes eisieu i chwi fyned a gwneuthur yr un modd.

Yn ddiweddaf, yr wyf yn dymuno ar bob dyn ieuanc i fod yn wrol, a rhoddi heibio bob arferion drwg. Nis gallwch fforddio byw mewn arferion drwg, pe na fyddai am un rheswm arall, ond y bydd iddynt eich gwneyd i gashau eich hunan. Y mae hwn ei hunan yn ddigon o reswm paham na ddylech botio, paham na ddylech dyngu a rhegu, paham na ddylech ysmocio, paham na ddylech byth adael i ddisgyn dros eich gwefusau ystori lygredig. A ydych yn dywedyd nad ydych byth yn arfer geiriau ac ymadroddion llygredig ond yn mhlith eich cyfeillion, a'r rhai sydd yn arfer pethau cyffelyb? Cywilydd i chwi, os ydych yn ei wneyd hyd y nod y pryd hwnw. Cadwch eich hunan mor bur mewn meddwl ac mewn bywyd ag ydych am i'ch chwaer wneyd. A ydych yn dywedyd fy mod yn afresymol? Nid ydwyf yn afresymol. Nid oes genych hawl i osod i chwi eich hunan safon i gymmeriad moesol un gronyn yn llai uchel nâ hyna.

A ydych yn dywedyd ei bod yn anhawdd cadw safon uchel o rinwedd yn mhlith eich cyfeillion presenol? Yna, yn debygol y peth mwyaf pwysig i chwi i'w wneyd yw, ffurfio cyfeillion newydd a gwell. Nis gall un dyn ieuanc, dyn neu ddynes, fod yn rhy ofalus i gadw'n mhell oddiwrth gyfeillion drwg. Dywedodd tad wrth ei ferch, yr hon oedd wedi gwisgo mewn gwyn, yn barod i fyned i *barty*, "Dygwch i mi ychydig lo o'r *cellar*, fy merch." "Ond sut y gallaf, fy nhad?" meddai y ferch. "Oni welwch fy mod wedi gwisgo mewn gwyn; caiff fy menyg a'm dillad eu trochi, os y gwnaf." Ni wnaeth ei thad ond ateb, "Dylai cymmeriadau, yn ogystal â dillad, gael eu cadw'n mhell oddiwrth lo."

Fechgyn a merched ieuainc, yr wyf wedi trin yn ddifrifol gyda golwg ar y pethau hyn mewn ymddygiad a chydwybod, o herwydd fod fy argyhoeddiad mor ddwfn mai'r peth cyntaf sydd yn eisieu ar bob bod dynol, i'w gymhwyso ar gyfer bywyd yw carictor pur, ardderchog, a nerthol. Os yw profiad dynoliaeth yn dysgu un peth, hyny yw., fod pob cwrtaith ag sydd yn methu cyrhaedd y natur foesol ac ysprydol—ag sydd yn methu ein gwneyd yn dda ac yn ddidwyll, yn gydwybodol a chrefyddol, yn gystal ag yn wybodus, y mae yn methu yn y man sydd fwyaf pwysig—yn fwyaf pwysig i ni ein hunain yn bersonol, ac i gymdeithas, ag y gall cwrtaith byth fethu.

J. T. S.

Y BUGAIL fyddo'n caru'r praidd,
A'r praidd fo'n caru'r bugail,
A'r Bugail Mawr dywyso'r ddau
Gerllaw y dyfroedd tawel.—*Pwy?*

A YW ADDYSG FYDOL YN ALLU MOESOL?

GWEDD NACAOL Y TESTYN.

Mr. Golygydd,—Nid wyf yn anymwybodol o'r ffaith fod ymgymmeryd ag ysgrifenu ysgrif ar y wedd hon i'r testyn uchod yn gyfryw ag a ddarostyngir i lawer iawn o feirniadaeth wrthwynebol, a chylêd y gorchwyl, wrth gwrs, lawer o'r hyn a ddesgrifir yn gyffredin, "rhwyfo yn erbyn y lli'." Ond byddai troi o'r neilldu ystyriaeth o unrhyw gwestiwn ar y plê y gwnai efe, wrth hyny, ddianc beirniadaeth anffafriol, yn annheilwng iawn o hyd y nod un o'r deall mwyaf pwl. Y mae ymfoddloni yn wasaidd mewn opiniwn ar gyfrif ei fod yn un cyhoeddus mor bechadurus ynddo ei hun ag ydyw yr arferiad ffol o ddyrnodio opiniwn y cyhoedd er mwyn datgan annybyniaeth barn. Eithafion ydynt y ddau; ac yn enw cyssegredig synwyr cyffredin, dylid eu gochelyd. Y peth sydd yn angen, a'r peth sydd yn gweddu yn oreu i ddyn yn meddu ar y graddau lleiaf o ddealldwriaeth, ydyw, sicrhau cymmaint o wroldeb ag a'i galluoga i edrych neu wynebu unrhyw gwestiwn yn dawel ac yn sefydlog, yn syml er mwyn y gwirionedd ei hun; ac hyd nes y llywodraethir ni gan yr yspryd hwn yn ein hymchwiliadau am y gwirionedd, gobaith gwael sydd am waredigaeth o'r hagrwch a'r erchylldod a nodweddant lawer iawn o ffurfiau o feddwl presenol y byd. Ni roddaf i fyny i neb yn fy edmygedd o addysg fydol, ond nid edmygedd o honi ydyw priodoli iddi ddylanwadau a swyddogaethau na pherthynant iddi, eithr eithafion o sêl a brwdfrydedd nodweddiadol o benboethni. Pell oddiwrthyf ydyw dweyd nad oes i addysg fydol un dylanwad o gwbl ar ymddygiadau dynion, ond y mae hawlio i hono y safon ddyrchafedig o allu moesol hollol, i'm tyb I, yn gyfryw na chyfiawnheir gan ffeithiau.

Heb wastraffu ychwaneg o amser, mi a ddechreuaf trwy geisio desgrifio pa beth fyddai *results* uniongyrchol ac anocheladwy addysg fydol pe, mewn gwirionedd, yr hyn yr ymrysonir ei bod gan lawer, sef ei bod yn allu moesol; ac, o ganlyniad, yn moesoli y byd. Wel, ynte, yn gyntaf oll, os yw addysg fydol yn allu moesol, yna, yn y dyddiau hyn, pan y mae wedi gwthio ei ffordd i bob cronglwyd o ran hyny, y mae yr egwyddor o frawdoliaeth dynolryw wedi ei sefydlu yn mhob man, ac yr ydym bellach yn ymddwyn tuag at bawb fel y carem i ereill ymddwyn atom ninau. A yw yr egwyddor hon, yr hon, yn ol awdurdod Ysgrythyrol, sydd yn dangos hanfod y gallu moesol, yn derbyn cydnabyddiaeth gyffredinol sylweddol yn Mhrydain Fawr—cenedl sydd â i chyfundrefn o addysg, pa fodd bynag, yn ddigon dyrchafedig i brofi gwirionedd neu arall gwedd gadarnhaol y testyn? Gresyn na allesid dweyd ei bod. Etto, os yw addysg fydol yn allu moesol, gwnai bawb dysgedig yn ddeiliaid llywodraeth gonestrwydd. Ac a ydyw hyn yn ffaith a bresenolir i ni gan fywyd dyddiol ac ymarferol? Pa beth, dywedwch, sydd yn gwneyd cydweithrediad mor llesg ac aneffeithiol yn ein mysg? Neu, mewn geiriau ereill, paham y goddiweddir ein hym-

drechiadau parhaus i gydweithredu gan fethiantau dieithriad, braidd, os nad y ffaith fod anonestrwydd, fel canor mawr, yn ysu dan wraidd cymdeithas, er fod genym gyfundraeth o addysg, yn yr hon yr ymffrostiwn lawer? Yn mhellach, os yw addysg fydol yn allu moesol, pa beth sydd yn cyfrif fod presenoldeb dyngarwyr yn ein plith mor anaml ag ymweliadau angylion, yr hyn nis gellir ei ddweyd am ddynion dysgedig? I beidio gwneyd fy eglurebau o ba beth fyddai effeithiau neu olion addysg pe yn allu moesol, yn flinderus i chwi, terfynaf gyda rhoddi un enghraifft arall. Os mai atebiad cadarnhaol i'r testyn ydyw yr un cywir, yna, wrth gwrs, dysgwylid, ac nid yn afresymol ychwaith, i bob dyn dysgedig, neu, i beidio bod yn rhy fanwl, y mwyrif o ddynion dysgedig, i weithredu yn unol â'r gorchymyn o roddi i egwyddor, i uniondeb, ac i ddyledswydd eu hystyriaethau cyn-raddol; i fuddiant a chyfleusdra eu hystyriaethau ail-raddol. Ond ai felly y mae? Ie, os ydyw y Dwyrain a'r Gorllewin yn yr un man. Yn anffodus, addolir *selfishness* heddyw yn y rhan fwyaf o achosion (nid ydym yn dweyd fod pawb, cofier,) mor wasaidd a digywilydd ag erioed. Gyda pha gyssondeb, gan hyny, y gellir galw addysg yn allu moesol? Oddieithr cyfuno cyfarwyddiadau moesol â chyfraniad addysg fydol, dwyn oddiamgylch ddadblygiad y deall yn unig a wna yr olaf, gan adael yn ddigyfnewid y dybenion moesol. Yn ffodus, ni chyfrenir addysg fydol wrthi ei hun hyd y nod yn yr ysgolion dyddiol, ond yn gymmysg â chyfarwyddiadau moesol—yr unig ammod ar yr hon y gellir ei gwneyd yn ddaioni parhaol ac yn fendith anmhrisiadwy.

Mor bell, nid wyf wedi rhoddi i chwi ond fy opiniwn fy hun ar y pwnc hwn. Yn awr, ceisiaf roddi i chwi opiniynau ereill. Un o ddywediadau bydenwog Arglwydd Beaconsfield oedd, "Creadur amgylchiadau yw dyn;" ac os oes anrhydedd mewn gweithredu yn unol â'r dywediad hwn, efe o bawb, yn sicr, oedd â'r hawl gryfaf iddo. Hyderwyf y cytuna y rhai a edrychant ar y testyn o gyfeiriad arall â mi yn hyn, nas gellir trosglwyddo mewn iaith ddim yn fwy heriol o'r gosodiad y llywodraethir dyn gan egwyddorion moesol nà'r dywediad uchod; ac etto i gyd, eiddo dyn o addysg uwchraddol ydyw. Yn mhellach, adroddir fod Gladstone wedi dweyd, a chydnebydd efe ei hun gywirdeb yr adroddiad, mai nid tra yr oedd efe yn Rhydychain y dysgodd i roddi y gwir werth ar egwyddorion anfarwol ac anmhrisiadwy rhyddid dynol, ac y mae lle i ofni fod hyn yn wir am lawer heblaw Gladstone. "The temper," meddai efe, "that prevails in academic circles is jealousy of the principle of trust in the people, qualified by fear;" ac y mae yn syn pa mor gywir ydyw y desgrifiad hwn o'r dymher sydd yn oruchaf yn seddau dysgeidiaeth y wlad hyd heddyw, os ydym i'w barnu wrth gynnrychiolaeth y seddau hyny yn y Senedd. Yno y mae eu cynnrychiolwyr yn rhwymedig i wrthwynebu pob mesur sydd â'i amcan i gloddio dan ganolfur y gwahaniaeth sydd rhwng gwahanol ddosparthiadau cymdeithas. Awdurdod arall etto yn mhlaid y wedd hon i'r testyn, ac nid llai pwysig nà Dr. Channing, America. Dywedai, "Without this (diwylliant moesol), great native powers of understanding are perverted and led astray; genius runs wild; the

light within us becomes darkness. The subtilest reasoners, for want of this, cheat themselves as well as others, and become entangled in the web of their own sophistry. It is a fact well-known in the history of science and philosophy that men, gifted by nature with singular intelligence, have broached the grossest errors, and even sought to undermine the grand primitive truths on which human nature, dignity, and hope depend." Ac ebai efe, "I have enlarged on this subject because the connection between moral and intellectual culture is often overlooked, and because the former is often sacrificed to the latter. The exaltation of talent, as it is called, above virtue and religion is the curse of the age. Education is now chiefly a stimulus to learning, and thus men acquire power without the principles which alone make it a good. Talent is worshipped; but, if divorced from rectitude, it will prove more of a demon than a god."

Yn awr, ddarllenwyr Yr Ymofynydd, nid wyf yn ei wneyd yn ymarferiad i ymffrostio yn fy achos, oblegyd ei fod yn cael ei ddal i fyny gan enwau mawrion; ond, yn sier i chwi, nis gall fod yn llai nâ bod yn fater o lawenydd i mi nad wyf wrth fy hunan yn y casgliadau a dynaf oddiwrth addysg. O'r braidd y mae'n angenrheidiol eich hyspysu nad oes ond dwy ffordd i brofi unrhyw osodiad. Y gyntaf, drwy ddwyn yn mlaen yn mhlaid unrhyw olygiad ein rhesymau uniongyrchol ein hunain; yr ail, gwrthbrofi gwrthddadleuon. Wedi ceisio sefydlu, neu brofi, achos fy hunan oddiar fy *stand point* I, mi a ddechreuaf yn awr gyda'r ymgais o ateb gwrthddadleuon. Yn flaenaf, ac yn ddiamheu y mwyaf nerthol, o leiaf ymddangosiadol felly, yn mhlith y rhai hyn ydyw cyfartalwch gwrthwynebol troseddau i gynnydd addysg. Hudolus, fel yr ymddengys yr wrthddadl hon ar yr olwg gyntaf, y mae iddi ei hagenau. Nid yw fod lleihad troseddau a chynnydd addysg yn gydamserol o angenrheidrwydd yn brawf mai effaith y diweddaf ydyw y blaenaf, er mi a addefaf, ei fod yn rhagdybiaeth yn ei ffafr. Pe byddai hyny yn gynnrychiolaeth gywir o effeithiau addysg, yna, cyfiawnheid ni i dynu y casgliad mai y genedl fwyaf freintiedig mewn ystyr addysgawl fyddai y leiaf droseddawl. A yw hyn yn wirionedd? Nac yw. Cymru, y leiaf freintiedig, mewn ystyr addysgawl, o ranau yr Ymherodraeth Brydeinig ydyw y leiaf ei throseddau. Cymmerer Lloegr, etto, fel enghraifft, yn dangos twyll yr wrthddadl hon. Yno, y mae addysg (fydol, wrth gwrs,) uwchraddol wedi ei sefydlu er ys llawer dydd, ond yn anffodus ei throseddau yn lluosocach. Yn awr, paham, yn Nghymru, gyda chenedl wedi ei hesgeuluso mewn ystyr addysgawl, y mae genym *minimum* o droseddau, ac yn Lloegr gyda chenedl sydd a'i hawliau addysgawl yn cael sylw ffyddlonach ond gyda *maximum* o droseddau, sydd anhawsder nad wyf fi yn gyfrifol am ei egluro. Mae fy nyledswydd I yn gynnwysedig yn ei nodi allan fel annghyssondeb anwahanedig oddiwrth y dull uchod o ymresymu. Ond â chaniatau, er mwyn ymresymiad, fod lleihad troseddau yn ganlyniad naturiol ac angenrheidiol addysg, ni fyddai, hyd y nod hyny, yn rhyw dir dyogel iawn i dynu y casgliad fod addysg fydol yn allu moesol; ac am y rheswm hwn, nad yw deddf y wlad ar y goreu

ond drych aneglur iawn iawn o foesau. Nid yw fod dyn ddim yn tori ffigwr mynych, neu dyweder ddim o gwbl, ar y daflen droseddawl, yn warant ddigonol ei fod yn ddysgybledig mewn ystyr foesol. Er enghraifft, gall dyn, ac yn wir nid yn unig hyny, y mae llawer, fod yn hollol ddiegwyddor, yn anngharedig, yn amddifad o bob cydymdeimlad, yn sur, ac mewn enghreifftiau dirif yn llygredig mewn ystyr foesol, ac etto i gyd yn berffaith rydd o afaelion deddf y tir. Ai nid yw yn beth cyffredin i aberthu lles y cyhoedd ar allor hunan-les? Yn awr, pe byddai deddf y wlad yn ddrych tryloyw o foesau, byddai y rhan fwyaf o honom â'n henwau ar y daflen droseddawl yn fynych os nad yn feunyddiol. I mi, ymddengys hyn yn wrthbrawf digonol o'r wrthddadl fod addysg fydol yn allu moesol, hyd y nod pe caniateid, yr hyn nad wyf yn barod i wneyd, fod lleihad troseddau yn gynnyrch addysg. Awdurdod arall yn mhlaid y golygiad fod addysg fydol yn allu moesol ydyw Arglwydd Macaulay, awdurdod ag sydd, pan yn wrthwynebol i ni ar unrhyw bwnc, ar unwaith yn awgrymu y priodoldeb o ddatgan ein hopiniynau gyda llawer iawn o dawedogrwydd. Ond nid oes dim i'w wneyd. Rhaid ydyw gwynebu yr anffawd. Ffeithiau ddylent ddwyn oddiamgylch argyhoeddiadau ac nid enwau nad pa mor fawr y byddont. Dywedai Macaulay, "Educate the mind of the labourer, and you have a guarantee against lawlessness, insurrections, and the moral distempers inseparable from ignorance." Yr wyf yn cydweled â, neu yn un ag ef, y dylid addysgu pob deiliad o'r llywodraeth nad pa mor ddistadl y byddo, dim ond gofalu fod yr addysg hono i'w chyfuno â chyfarwyddiadau moesol; ond y mae yn briodol ac yn bwysig i nodi allan nad yw rhagddywediadau y gwr enwog uchod, parthed dylanwad addysg ar y meddwl, wedi eu gwireddu gan amser, yn neillduol os ydym i gredu yr adroddiadau am derfysgoedd Llundain, Belfast, a Lanarkshire yn Scotland.

Wrth derfynu, Mr. Golygydd, caniatewch i mi ddweyd, er nad wyf fi o'r farn, cywirdeb ffurfiad, pa un y mae darllenwyr Yr Ymofynydd yn alluog i farnu erbyn hyn, fod addysg fydol yn allu moesol; etto i gyd, cyflenwa mewn modd diamheuol, un o ammodau adnewyddiad moesol y byd, sef gwybodaeth o'i angenion moesol.

Llwynpia. JOHN MORGAN.

O.Y.—Os tueddir rhywun i ateb yr ysgrif hon, addawaf roddi yr ystyriaeth fanylaf i'w atebiad, gan nad wyf yn credu mewn rhodio unrhyw lwybr y bydd gwirionedd a goleuni yn fy ngwahardd.

Syr W. Raleigh, pan yn edrych ar gofadeiladau tywysogion, a wnaeth y sylw hwn:—"O! angeu cyfiawn a galluog, yr hyn ni feiddiodd neb, ti a feiddiaist; a'r rhai yr oedd y byd yn gwenieitho iddynt, ti yn unig a fwriaist allan o'r byd, ac a ddirmygaist; dygaist yn nghyd yr holl fawredd pell-ledaenol, holl greulondeb ac uchelgais dyn, a chuddiaist ef drosodd â dau air bychan, cul, '*Hic Jacet*' ('Yma gorwedd.)"

O ARWAIN FI, ARGLWYDD.

11au.

(*Efelychiad o "O lead me, my Father."**)

O arwain fi, Arglwydd, rhag crwydro'n y cudd,
O arwain fi, Arglwydd, yn ddyogel bob dydd;
Pob nwyd fyddo'n ddystaw, di-rwgnach b'wyf fi,
Gan geisio yn wylaidd dy 'wyllys ddoeth Di.

Yn nghanol pleserau, O Dad, cadw fi,
Rhag i mi annghofio fy nyled i Ti;
Pan döer fi gan ofid, mewn duwch tew, maith,
O arwain fi, Arglwydd, gwna'n oleu fy nhaith.

Os meddwl neu orchwyl fydd feichus i mi,
Boed wynfyd i 'nghalon gymmuno â Thi;
A phan y daw angeu, o'r byd i'm rhoi'n rhydd,
O arwain fi, Arglwydd, i fyth fythol ddydd.

Mawrth 9fed, 1887. CYNONWYSON.

MYNED AR I WAERED.

"EDRYCHA hwn yn wael," meddai Williams y ffermwr, gydag ysgydwad arwyddocaol o'i ben, fel y pasiai yn un o'i wib-deithiau heibio i glawdd oedd wedi ei esgeuluso ac wedi cwympo.

"Gwael iawn," oedd ateb ei gydymaith.

"Ymddengys fod ein cymmydog Jones yn rhedeg ar i waered yn lled gyflym. 'Rwy'n cofio pan oedd pob peth o gylch y lle yn gryno a glân."

"Ymddangosai bob amser yn ddyn sobr a diwyd," meddai'r ail siaradwr.

"Mae gen' I bâr o esgidiau o'i waith am fy nhraed 'nawr, ac y maent wedi gwneyd gwasanaeth da i mi."

"'Rwyf finau fynychaf wedi rhoi gwaith iddo," meddai Williams, "a rhaid i mi addef ei fod yn weithiwr da: ond 'rwy'n credu yr af heddyw at Jack Smith i 'mofyn pâr o esgidiau newydd. Yr wyf bob amser yn ei gwneyd hi yn rheol i beidio rhoi cefnogaeth i rai sy'n myn'd yn ol yn y byd. Mae fynychaf ryw berygl mewn helpu y sawl na allont helpu eu hunain."

"Digon gwir: a chan fod fy ngwraig am i mi edrych am bâr o esgidiau iddi y boreu yma, 'rwy'n credu y deuaf gyda chwi at Smith. 'Does gen' I fawr golwg arno, mae'n wir, y creadur diog, cwerylgar."

---

* Gwel "The Essex Hall Hymn and Tune Book," page 8.

"Ac etto, ymddengys i ddod 'mlaen yn y byd," meddai'r ffermwr, 'ac mae gen' I neges at y bwtshwr. Felly, ni wnaf eich cadw."

Yn nhy y bwtshwr cyfarfyddasant â'r cymmydog oedd yn destyn eu hymddyddan blaenorol. Yn ddiddadl, golwg ddigon canolig oedd arno, a thynodd y tamaid cig a brynasai sylw Williams y ffermwr. Ar ol ychydig ymgom, ymadawodd y crydd druan, ac agorodd y bwtshwr ei lyfr cyfrif gydag golwg bryderus, ac wrth osod i lawr nodiad am y tamaid cig, dywedodd:

"'Rwy'n credu fod hi'n bryd i'n cymmydog Jones â mi ddod i ddealldwriaeth. Cyfrifon byrion a wnant gyfeillion da."

"Dim amser i'w golli, allwn I feddwl," atebai'r ffermwr.

"Yn wir: a ydych chwi wedi clywed am ryw helbul, Mr. Williams?"

"Na chlywais I ddim, ond gwyddoch, mae genyf lygaid i sylwi, a 'dwy I byth yn rhoi arian i neb sy'n eglur fyn'd ar i waered."

"Eitha' *right*: ac mi anfonaf fy *mill* iddo heno. 'Rwyf wedi oedi o herwydd yr afiechyd sydd wedi bod yn y teulu trwy'r Gauaf. Mae'n debyg ei fod wedi myn'd 'nol ychydig yn y byd, ond etto, rhaid i mi ofalu am y *number one*."

"Yn siarad am Jones, ydych chwi?" meddai rhywun gerllaw oedd yn cymmeryd dyddordeb yn y sylwadau. "Myn'd ar i waered, aï e?"

"Rhaid i mi ofalu, ynte. Mae arno swm go dda i mi am ledr. Yr oeddwn wedi meddwl rhoi mis arall o goel iddo, ond ar y cyfan, 'rwy'n meddwl y bydd yr arian yn fwy dyogel yn fy llogell."

Fan hyn, ymadawodd y gwyr da â'u meddyliau yn llawn o oruchwylion eu cymmydog Jones, y tebygolrwydd o'i fod yn myn'd ar i waered, a'r ffordd oreu i'w wthio'n mhellach.

Mewn rhan arall o'r pentref, cymmerai rhywbeth tebyg le.

"Fel 'rwy I byw," meddai Mrs. Davies, y wniadyddes, wrth ei morwyn, gan dynu ei phen yn sydyn o'r ffenestr lle yr oedd wedi bod yn gwylio y sawl a elent heibio, "dyma Mrs. Jones, gwraig y crydd, yn dod i fyny i'r grisiau, a phecyn yn ei llaw. Mae am i mi wneyd gwaith iddi, ond 'rwy'n credu y bydd perygl wrth hyny. Dywed pawb eu bod yn rhedeg ar i waered, a siawns fawr os ca' I byth fy nhalu."

"Mae wedi talu yn rheolaidd hyd yn hyn," meddai'r forwyn.

"Gwir: ond yr oedd hyny yn nyddiau ei llwyddiant. Alla' I ddim fforddio rhedeg y perygl."

Darfu i ddyfodiad Mrs. Jones rwystro un ymgom bellach. Gellid yn hawdd weled fod Mrs. Jones wedi ei synu at Mrs. Davies yn pallu gwneyd y gwaith drosti: ond gan y dywedid mai gormod o waith oedd yr esgus, allai Mrs. Jones ddweyd dim, ac felly ymadawodd. Trodd cais arall yr un mor aflwyddiannus. Yr oedd yn od fod holl wniadyddesi y pentref wedi eu gorlenwi â gwaith mor ddisymwth. Ar y ffordd adref cwrddodd gwraig y crydd ag athrawes ysgol fechan yn y gymmydogaeth, lle y mynychai dau o'i phlant. "O! Mrs. Jones, 'rwy'n falch i'ch gwel'd chi," oedd y croesaw. "Yr oeddwn ar fedr galw yn eich tŷ. A fydd hi yn gyfleus i settlo yr ychydig gyfrif sydd rhyngom y prydnawn yma?"

"Bron fel yr oeddwn yn dysgwyl, wela'i geiniog byth. Dywed pawb eu bod yn myned i waered. Rhaid i mi gael gwared o'r plant rywfodd. Feallai y ca' I bàr neu ddau o esgidiau yn dâl am hanner y cwarter, os ca' I hwyl arni, wnaiff hi ddim o'r tro fel hyn."

Wedi ei haflonyddu ychydig gan ei hymgom â'r athrawes, aeth Mrs. Jones i siop y *grocer* i brynu rhai màn bethau at dreuliau'r teulu.

"Mae gen I gyfrif bach yn eich erbyn chwi, ac a fyddai hi yn gyfleus i Mr. Jones ei setlo fe heno?" gofynai'r siopwr moesgar, fel y dygai y nwydd angenrheidiol.

"Ai dyma'r amser arferol i setlo?" meddai Mrs. Jones yn synedig.

"Nage'n, hollol: ond mae arian yn brin iawn 'nawr, ac yr wyf yn awyddus am gael cymmaint ag sydd yn ddyledus i mi. Yn y dyfodol 'rwy'n bwriadu cadw cyfrifon byrion. Dyma'r *bill*, os carech edrych arno. Galwaf heibio heno. Dim ond cyfrif bach yw e'."

"'Dyw deg swllt ar hugain ddim yn swm bychan ar hyn o bryd," feddyliai Mrs. Jones, fel yr elai yn fyfyrgar adref. "Mae'n od fod yn rhaid cwrdd â'r holl daliadau hyn 'nawr, pan yr ydym yn gwneyd ein goreu i adferu tipyn ar ol treuliau trwm y Gauaf. Alla' I ddim o'i deall hi." Ychwanegwyd at ei helbul trwy weled ei gwr à dau *fill* yn ei law, a golwg bryderus arno.

"Edrychwch, Mari," meddai, gyda ei bod hi yn gwneyd ei hymddangosiad, "dyma ddwy alwad am arian nad oeddem yn dysgwyl am danynt,—un oddiwrth y meddyg, a'r llall oddiwrth y masnachydd mewn lledr, gan yr hwn y prynais y stoc ddiweddaf. Mae y ddau yn awyddus am daliad buan, er eu bod bob amser wedi bod yn foddlon aros ychydig fisoedd hyd nes y gallwn I wneyd parotoadau i gwrdd â'u hawliau. Ond 'dyw anffodion byth yn dyfod wrthynt eu hunain, ac os yw dyn ychydig bach ar ol, mae trafferth yn sicr o gafodi arno."

"Eitha' gwir," meddai'r wraig, "meddylia'n cymmydogion ein bod ni yn myned ar i waered, ac mae pob un yn barod i roi gwthiad i ni'n mhellach. Dyma ddau *fill* arall i chwi, un oddiwrth y *grocer*, a'r llall oddiwrth yr athrawes."

Rhwystrwyd atebiad gan gnoc ar y drws, ac ymddangosiad llencyn bychan gyda phapyr, wedi ei blygu yn daclus yn ei law.

"*Bill* y bwtchwr, fel rwy' I byw!" meddai'r crydd, mewn syndod. "Beth wnawn ni, Mari? Cymmaint o arian i dalu maes, a chan lleied yn d'od i fewn, oblegyd mae rhai o 'nghwsmeriaid goreu wedi 'ngadael, er fod fy ngwaith yn rhoi cystal boddlonrwydd ag erioed. Pe gallwn gael cymmaint o waith ag arfer, a phe rhoddid y coel arferol i mi, gallwn dalu yr hawliau hyn: ond mae yn anmhossibl cwrdd â nhw 'nawr, ac fe fyddai dweyd fy mod yn analluog i'w talu yn sicr o'n danfon yn is i lawr ar ein llwybr tuag i waered."

"Rhaid i ni wneyd ein goreu, ac ymddiried yn Rhagluniaeth," oedd sylw cyssurlawn ei wraig, pan y clywid cnoc arall ar y drws, yr hwn a barodd ofn ynddynt fod galwad arall am arian wedi d'od. Ond gwnaeth gwynebpryd cariadus Ewythr Joshua ei ymddangosiad. Ymwelydd anaml oedd Joshua, ond yr oedd bob amser groesaw iddo pan

y delai. Wedi eistedd mewn cadair gwmffwrddus y brysiodd Mari i estyn iddo, dywedodd :—

" Wel, bobl fach, rwy'n deall nad yw'r byd ddim cystal arnoch ag y bu. Beth yw'r gofid?

" 'Does dim eisieu fod un gofid " oedd yr ateb, " pe na bai dynion yn ceisio ychwanegu at y blinderon ag mae'r Hollalluog yn weled yn angenrheidiol i ni. Bu yn Auaf caled. Cawsom ein rhan o afiechyd ac anffodion, y rhai a wnaethom ein goreu i ddwyn yn amyneddgar. Byddai pobpeth o'r goreu arnom nawr, pe na fai ein cym'dogion wedi penderfynu ein gwthio ar i waered."

" Ac yno mae'r anhawsder, gyfaill. Byd hunangar yw'r byd hwn. Mae pawb, neu o'r hyn lleiaf, y mwyafrif mawr, yn gofalu am neb ond y *number one*. Os gwelant gymmydog tlawd yn myned yn ei wrthol, eu meddwl cyntaf yw, a effeithia hyny ar eu lles hwy ; ac os gwelant eu bod yn ddyogel eu hunain, ni ofalant pa mor fuan yr a i'r gwaelod. Yr unig ffordd yw cadw ymddangosiad da. Dangoswch chwi eich bod yn myn'd ar eich gwaeth, mae ar ben arnoch."

" Digon gwir, Ewythr Joshua : ond sut gwneir hyn? Mae *bills* yn ymdywallt arnaf nad oeddwn yn dysgwyl y byddai raid i mi eu talu am y tri mis nesaf. Mae fy nghwsmeriaid goreu yn fy ngadael ac yn myned at rywun mwy ffodus. Mewn gair, yr wyf ar geulan dystryw, ac ni all dim ond gwyrth fy achub'!"

" Gwyrth a ellir wneyd yn hawdd, ynte, allwn I feddwl. Beth yw swm eich dyledion sydd yn gwasgu mor drwm arnoch, a pha mor fuan yn nghwrs arferol pethau y gallwch chwi eu talu?"

" Ydyn' nhw ddim dros bum' punt ar ugain," atebai'r crydd, " a chyda fy ngwaith arferol, gallaf wneyd yr oll yn iawn mewn tri neu bedwar mis."

" Dywedwch chwech," meddai'r Ewythr, " mi ro'f fenthyg yr arian sydd arnoch eisieu. Talwch bob dimai sydd o ddyled arnoch, a gwnewch ryw ychwanegiad neu welliant yn eich tŷ neu'ch siop, a rhowch bobpeth oddeutu'r tir mewn trefn dda. Treiwch y cynllun hwn am ychydig wythnosau, a chawn weled pa effaith a ga ar ein cymmydogion teilwng. Na, na, 'does dim eisieu diolch i mi ; 'dwy I ddim ond yn gwneyd prawf bychan ar y natur ddynol. 'Rwy'n eich adnabod er ys llawer dydd, a gwn fod fy arian yn ddyogel yn eich dwylaw."

Aeth wythnosau heibio. Dylynwyd cynghor Ewythr Joshua yn fanwl, ac yr oedd y cyfnewidiad yn rhagolygon y crydd yn wir yn rhyfeddol ; siaredid am dano 'nawr fel y dyn mwyaf llwyddiannus a darbodus yn y pentref, a dywedid llawer ystori i gyfrif am y cyfnewidiad. Y farn gyffredin oedd fod rhyw berthynas pell wedi gadael iddo waddol a fu yn help iddo i ddod allan o'i anhawsderau arianol. Pigai y bwtshwr moesgar y dernyn goreu o gig iddo i edrych arno, pryd bynag y gwnelai ei ymddangosiad, ac am y talu, 'doedd dim gwahaniaeth pryd. Elai yr athrawes gyda'r plant adref i dê, a siaradai yn uchel am y cynnydd oeddent yn wneyd, ac ni phetrusai ddweyd mai hwy oeddent yr ysgolheigion goreu yn yr ysgol. Cafodd y wniad-

yddes ei hun yn ddisymwth yn rhydd o'r wasgfa ryfeddol o waith oedd yn pwyso arni, ac mewn ton fwynaidd, mynegodd ei dymuniad i wneyd ei goreu dros Mrs. Jones.

"Yn gywir fel yr oeddwn yn dysgwyl," llefai Ewythr Joshua, gan rwbio ei ddwylaw yn llawen, pan alwodd y crydd diolchgar arno ar ddiwedd y chwe' mis, i dalu'n ol yr arian a fenthyciwyd yn awr angen. "Yn gywir fel yr oeddwn yn dysgwyl. Byd rhyfedd yw hwn. Maent yn barod i wthio dyn i'r lan pan y mae yn esgyn, ac mor barod a hyny i'w wthio ef i lawr, os gwelant fod ei wyneb wedi ei droi yn y cyfeiriad hwnw. Yn y dyfodol, gyfaill, gwisgwch osgo o lawnder a chyfoeth, a byddwch yn sicr o lwyddo."

A chyda gwedd lawn o foddhad, gosododd Ewythr Joshua ei arian yn ei logell-lyfr, yn barod i gwrdd ag unrhyw hawl arall ar ei garedigrwydd, tra y dychwelai y crydd i'w gartref cyssurus, yn wir ddiolchgar am y cymhorth a dderbyniodd yn nydd trallod. H.

GEIRIAU OLAF CRISTION.

Yr oedd yn amlwg i'w weled fod dydd ymddattodiad Emma yn agos wrth y drws; ni chododd mwyach o'i gwely; daeth ei gwynebpryd yn raddol yn fwy nefol ei ymddangosiad; taenodd lliw gwanaidd ond nefol dros ei gruddiau, yr hwn oedd am amser maith wedi diflanu. Yr oedd yn awr yn ei llygaid oleuni prydweddol a thanbaid, yr hwn oedd arddangosiad o dangnefedd mewnol.

Ymwelai ei chyfeillion Efengylaidd â hi yn fynych yn ei hystafell. Y mae hyn yn beth arferol ar amgylchiad o'r fath, a goddefol gan y claf o dan rai amgylchiadau; ond nid felly ganddi hi yn awr. Un noson, wedi bod gweddi a chanu mawl yn ei hystafell, a phob un wrth ymadael yn rhoddi datganiad i'w ddymuniadau sobr am ei heddwch a'i thangnefedd, dywedodd wrth Mrs. W.:—

"Pan wyf yn marw, na adewch i'r pregethwyr fod o fy amgylch; gadewch i mi farw wrthyf fy hunan. Y mae marwolaeth yn beth rhy ddifrifol i dystion. Gallant efallai wasgu ar fy meddwl nes byddo rai pynciau na allaf y pryd hwnw eu hateb yn groew, oblegyd methiant fy neall a'm synwyr, a nychdod naturiol fy nerth, gael eu camddeall fel yn gosod allan arwyddion o afiechyd yn y ffydd. Y maent hwy yn hoff o ddirwasgu rhai testynau neillduol ar farwolion ar y fath amser. Nid adeg yw i ateb gofyniadau cywrain. Y mae yn rhaid i ddyn y pryd hwnw fwynhau ei grefydd heb gael ei aflonyddu, ac nid ei phennodi a'i darlunio. Pe gallaswn gynnyg fy nhystiolaeth i'r byd, buaswn yn ei chynnyg felly yn mhresenoldeb y byd cynnulliedig; ond nid yw Duw yn gofyn y fath dystiolaeth i'w wirionedd. Dylai cauadleni gwely marwolaeth fod wedi eu tynu at eu gilydd—boed felly i mi, fy anwylaf fodryb! A gaf fi gyffesu y gwirionedd i chwi? Meddyliaf fod rhywbeth rhy gyhoeddus yn yr hanesion argraffedig o

farwolaeth personau Efengylaidd. Ni ddymunaf fi gael fy amgylchynu gan bregethwyr ereill fyddant yn fy ngalw I i dystiolaethu i'r gwirionedd, pan na fydd genyf bellach anadl i'w hyspysu. O na, y mae rhywbeth yn rhy chwareuyddol yn hyny, ac yr wyf fi," meddai Emma, gan sychu ymaith y dagrau a dreiglent dros ei gruddiau, ac ychwanegu, "yr wyf fi wedi dyoddef gormod oddiwrth y fath chwareu."

Pan yn llefaru y geiriau hyn, daeth Mr. W., yr hwn oedd yn yr ystafell, yn mlaen. Ni allai ef oddef i'w nith, yr hon oedd wedi cael ei dwyn i fyny yn mhlith y sect fanylaf o grefydd Efengylaidd, i ymadael felly heb adael ar ei hol erthygl goffadwriaethol o'i marwolaeth mewn cylchgrawn Efengylaidd. Dysgwyliai hyn, o leiaf, oddiwrthi.

"Fy anwyl Emma," ebe fe, fel yr oedd yn agoshau at echwyn ei gwely, ac yn tyneru ei lais i'r dôn dyneraf, "hyderaf nad wyf i ddarganfod yn eich geiriau olaf fethiant neu wyrdroad oddiwrth y ffydd, dros yr hon y mae y saint yn cael eu darlunio yn milwrio drosto hyd at waed. Gobeithiwyf ac ymddiriedaf nad yw eich agoshad at fro a chysgod angeu ddim yn tywyllu eich golygiadau ar y Pum' Pwnc, y sylfeini sefydlog hyny ar y rhai y mae yr Efengyl yn gorphwys," ac yr oedd Mr. W. yn ymdrechu cyfrif ei fysedd. Yn ofer y gwnaeth Mrs. W. arwyddion iddo i dewi. Aeth rhagddo gyda'r pynciau mor bell a *Pharhad*, pan y darfu i Emma godi i fyny ei llaw wywedig, a darfu iddo ef yn anwirfoddol dewi.

"Fy anwyl ewythr," ebe y Cristion ymadawol, "iaith dyn sydd fel llwch yn y glorian i mi yn awr! Yr wyf fi ar fin fy medd, ac ymddengys i mi y gwahan-nodau gresynol sydd wedi cadw dynion mewn gwrthryfel â'u gilydd dros yr oesau yn ddim. Y mae sylweddoldeb—*sylweddoldeb* yn ymgynnyg ac yn ymdrafod â mi. Gwn I fod iachawdwriaeth trwy ras a ffydd, a chan wybod hyny, yr wyf yn foddlon. O fy ewythr! yr wyf yn cyflym nesu at y farn hono lle nad yw Iuddew, na Barbariad, na Scythiad, na chaeth, na rhydd yn ddim; ond Crist yn mhawb ac yn mhob peth. Na siaradwch mwy am y pynciau, y rhai ni allaf eu deall, ond teimlwch gyda mi mai Crist yw crefydd yr enaid, ac nad yw holl ddadleuon byd yn nghylch credoau a phynciau neilldnol duwinyddiaeth ond o ychydig fudd mewn cymhariaeth i'r oruchafiaeth o'i mwynhau yn ein calonau, a'i gweithio allan yn ein bywydau."

C.

NODYNAU GWASGAROG.

Y PECHOD YN ERBYN YR YSPRYD GLAN.

Mae wedi achosi pryder a gofid lawer i ddynion duwiol a da, y rhai ydynt wedi bod yn ofni eu bod yn euog o hono. Wrth gwrs, y mae barnau gwahanol yn mherthynas i bechod—i bob pechod; rhai yn tybied fod euogrwydd yn elfen angenrheidiol o hono, ac nas gall fod

enogrwydd lle nad oes gwybodaeth ; nad yw yn iawn galw gweithred anwirfoddol, neu un a wneir mewn anwybodaeth, yn bechod ; ein bod yn teimlo yn euog yn unig o ddrwg a gyflawnir yn wirfoddol genym. Nid yw dim o bob trosedd yn wirfoddol nac yn cynnwys enogrwydd. O'r tu arall, y mae rhai yn tybied mai peth perthynol i'r adeg hono yn unig oedd y pechod dau sylw ; pechod yn cyfeirio at ymddygiad yr Iuddewon at yr Iesu, pan yn priodoli ei weithredoedd i Beelzebub ; pechod swyddogol hefyd ; pechod yr offeiriaid oedd. Yn ddiamheu, fe ddylid darllen yr adnodau (Matt. xii. 31, 32) yn eu cyssylltiad, ac wrth wneuthur hyny, fe ddeallir mai pechod y Phariseaid oedd priodoli i Beelzebub yr hyn y *gwyddent* nad oedd neb ond Duw a allai ei gyflawnu. Pechod yn erbyn gwybodaeth oedd, pechod yn erbyn y goleuni uwch—pechod yn erbyn cydwybod. Gall dyn fod yn euog o gyffelyb bechod yn mhob oes. Sylwer, fe ddywedir y gellir maddeu pechod yn erbyn Mab y Dyn, sef yn erbyn yr Iesu ei hunan ; ond nid yn erbyn yr Ysprvd Glan ; yr Ysprvd Glan yw Ysprvd Duw, ac Ysprvd Duw yw Duw ei Hunan, gan awgrymu gwahaniaeth rhwng Duw a Christ. Wrth y byd hwn a'r byd a ddaw, fe olygir nid y ddaear, a byd yr ysprydoedd ; nid yma ac hwnt i'r bedd. Nid yw y gair a gyfieithir *byd* yn yr adnod ddim yn golygu y ddaear, ond *oes* : a'r ystyr debycaf yw "yr oes hon a'r oes nesaf," neu yr Oruchwyliaeth Iuddewig a'r Oruchwyliaeth Gristionogol. T. L. R.

SEILIAU'R FFYDD.

Mewn cyfarfod o offeiriaid a gynnaliwyd yn ddiweddar, fe ddywedodd y Deon Burgon (boneddwr a dybia ei fod wedi *smashio* y cyfieithad diwygiedig o'r Testament Newydd Seisnig) fel hyn :—"Heb y tair pennod cyntaf o Genesis, gwnelai holl adeiladwaith y Testament Newydd syrthio i ddinystr affunaidd." Bydd yn anhawdd gan y darllenydd dderbyn hynyna fel ffaith, ond dyna iddo awdurdod y Deon enwog drosto. Mae y Deon yn amlwg yn credu mai y pump pwnc a'r 39 erthygl yw y Testament Newydd. Yn y pennodau yn Genesis y ceir hanes y codwm, ac wrth yr hanes hwn y mae y Drefn Cadw yn crogi. Heb y codwm yn Adda, ni fuasai eisieu y codi yn Nghrist. Gwelir, felly, fod colli pwnc y codwm yn *death blow* i'r credoau ; ond ni waeth hyny na pheidio, y mae tynghed y pennodau dan sylw fel darn o hanes gwirioneddol wedi ei selio ; ac wedi'r cwbl, nid wyf yn gweled un achos i ni wan-obeithio. Nid wyf yn credu llai na fydd y Testament Newydd etto yn aros ; bydd Duw yn aros, dyledswydd yn aros, anfarwoldeb yn aros. Yn sier i chwi, nid yw y pethau hyn yn dybynu ar wirioneddd hanesyddol pennodau cyntaf Genesis. Dichon fod syniadau dynion mewn perygl, ond nid yw hyny yn peryglu gwirionedd tragwyddol Duw. Q. Q.

YR EURGRAWN CYMREIG.

Ymddangosodd amryw sylwadau mewn rhifynau diweddar yn seiliedig yn benaf ar erthygl yn y *Penny Cyclopædia*, *Traethodau Llenyddol*

y Dr. Lewis Edwards o'r Bala, a *Llyfryddiaeth y Cymry*. Enw arall yw *Trysorfa Gwybodaeth*. Yr wyf yn ddyledus am ddesgrifiad manwl o'r copi yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain i Mr. Priestley Evans, o Gefncoed, yr hwn sydd yn bresenol yn fyfyriwr yn y Manchester New College. Ymddangosai yr *Eurgrawn* bob pythefnos, a daeth 15 rhifyn allan i gyd—y cyntaf, dydd Sadwrn, Mawrth 3, 1770, a'r diweddaf, Medi 15, 1770, pan y gorfuwyd ei roddi i fyny o ddiffyg cefnogaeth. O'r 15 rhifyn y mae y mae'r tri olaf yn eisieu yn y copi yn y British Museum. Cynnwysai pob rhifyn 32 tud., a dosparthid y rhai hyn yn bedair rhan, y rhai ydynt yn mhob rhifyn wedi eu tudalenu i gyd ar wahan. (1) 8 tud. o Brut y Tywysogion, (2) Ymresymiadau ar amrywiol destynau, (3) Prydyddiaeth, (4) Newyddion cartrefol a thramor. Dyben y dosparthiad hwn oedd fel y gellid rhwymo y gwahanol bynciau yn llyfrau ar wahan. Dyma enwau rai o'r beirdd:—Taliesin, Syr Lewis Gethin, J.R. (Josiah Rees, y golygydd), Iorwerth ap Ioan, Lewis Hopcin, Ffransis Tomos, Da: Lloyd, Risiart Rhys o'r Gwernllwyn, Dafydd Jones Llanwrda, J. Thomas, y Parch. Elis Wynne (awdwr y *Bardd Cwsg*), Iorwerth Gwilym (sef Iolo Morganwg), Huw Morus, J. Wms., Ioan Jenkins o Aberteifi, Menaw-wr, Sieneyn Thomas Morgan, Sion Rhyddereh, Dafydd ap Rhisiart (Mai 9, 1770), R.E., Rhys Pennarth (1480), G. ap D., Dafydd Hopkin (1785), Ieuan Bradfford, Dewi Fardd C.C., Huw ap Huw, Dafydd ab Gwilym, Ifan Brydydd Hir (hynaf), Dafydd ap Risiart, Iorwerth ap Harri.

Mae Cân y Bwci o eiddo Dafydd Llwyd, a Salm xix. gan Rd. Rhys, a'r bregeth ar "Enllib a phob Gogan-air" wedi eu cyhoeddi lawer gwaith, ac yn ddigon adnabyddus. Dichon y bydd y gân ganlynol gan Josiah Rees (Gellionen) yn dderbyniol:—

ACHWYNIAD COLIN.

(*Cyfieithad o'r gân Scisnig a elwir "Colin's Complaint."*)

Heb obaith 'roedd Colin yn gorwedd
Wrth ffrwd o'r dw'r gloewaf dan nen,
Gan achwyn ar ferch ddidrugaredd,
A phwyso ar helygen ei ben;
Y gwynt, 'r hwn a chwythai drwy'r doldir,
Atebai 'i och'neidiau tra mawr,
A'r nant, mewn ad-daliad i'w ddolur,
A redai'n alarus i lawr.

"Och finau! fy mod I mor ynfyd!
(Yn llyn y galarai fe 'i fyd)
Pan gyntaf y gwelais ei glànbryd,
Gwell fu'sai i mi farw ar y pryd;
Pan lefarai ei thafod, benditliiwn,
Byddwn ddedwydd pan wenai'r un làn,
Gwrandewais pan ganai, a dywedwn,
'Mwy melus nâ'r eos ei chàn.'

"Bum ffol iawn i gredu 'rho'i 'i chalon
Ar wladwr mor anial ei le,
Neu na lanwai hiraeth ei dwyfron
Wrth adael rhai taclus y dre';
Fod geneth mor llon a chyn laned
Yn profi mor ffyddlon a gwiw
A dyfod, yn llwyd fel ein merched,
I fwthyn ar gariad i fyw!"

Beth dâl meddu medr i gwyno,
A choron duwiesau y ddysg,
A bod i'r llancesau i wylo
Pan ganwyd galarnad i'w mysg?
O Colin, dy obaith sydd annghall,
Dy bibell a'th lawryf na chais,
Mae'th gariad yn dewis un arall
Ag sydd yn felusach ei lais.

"Gyfeillion ag sy'n cydymdeimlo
A mi am aflwyddiant fy serch,
Beth bynag oddefwyf, rho'wch heibio—
Rho'wch heibio â dannod i'r ferch;
Er imi trwy'r byd mawr i grwydro,
Fy mhlaned a'm caulyn er gwae,
Rhaid oedd iddi newid a thwyllo,
A minau i ffyddlon barhau.

"Ond tra b'wyf yn dyoddef fy mhennyd,
Os bydd peth tosturi'n ei gwaed,
O deued i'm gweled mewn gweryd, (h.y., bedd)
Yn nghyd â llancesau y wlad;
Y ffafr ddiweddaf 'wy'n chwennych
Yw cysgod o *sypress* ac yw,
A dywedyd o honi wrth edrych,
'Y cariad ffyddlonaf nid yw.'

"'Rol hyny aed at gariad newydd,
Yn ddysglaer mewn aurwisg yn llwyr;
Cyfrifer hi'n frafaf trwy'r gwledydd,
A champed o foreu hyd hwyr;
Bydd Colin yn cael ei annghofio,
Heb ddim son am dano fe 'maes,
Oddieithr i'w yspryd e' rodio
Dan lewyrch y llenad wen lâs."—*J. R.*

DEDDF PRIODI NEWYDD.

Mae y Toriaid mewn swydd yn bresenol, ac os na allant wneuthur rhyw dda, ni fydd eu goreu yn ol i'n landio mewn rhyw drafferth neu gilydd. Gwir ddigon nad yw Deddf Priodas y cwbl y dylai fod; ond

eisieu ei gwellhau, ac nid ei gwaethygu sydd. Os pasir deddf newydd Syr Richard E. Webster, fe amddifadir Annibynwyr, Bedyddwyr, ac Undodiaid o'r gallu sydd ganddynt yn awr i weinyddu, ac yn neilldnol yn Nghymru. Arwain yn ol wnaiff y Toriaid bob amser, os cânt genad. Dylid galw sylw ein Haelodau Seneddol at yr amryfusedd hwn. Y mae yn rhy ddiweddar, bellach, i gyfyngu ar ein rhyddid, a gwneuthur brad ar ein Hannghydffurfiaeth.

PRIODI ANYSTYRIOL.

Mae priodi yn hen ffasiwn, ac yn debyg o barhau yn boblogaidd, er gwaethaf cynghorion dynion doeth a rhwystrau deddf-wneuthurwyr. Hen dyb oedd fod rhif priodasau yn dybynu ar bris y dorth; ond tebyg iawn fod newid wedi cymmeryd lle yn hyny oddiar ddyddimiad Treth yr Yd. Mae rhywun wedi awgrymu fod *emigration* yn llywodraethu y rhif. Tebyg iawn fod y rhif yn dybynu mwy neu lai ar y rhagolwg sydd gan y bobl ieuainc—pa sut y gallant gynnal teulu. Dywedir mai yn mhlith y dosparth gweithiol mae mwyaf o anystyriaeth—eu bod hwy, ar gyfartaledd, yn priodi yn 21 oed, tra mae cyfartaledd y dosparthiadau ereill yn 30 a 34. Nid yw Esgob Manchester yn dangos fawr cydymdeimlad â churadiaid a'u teuluoedd mawrion; ac yn ateb i'r cyfryw a ddywedant, "Yn sicr, 'dydych chwi ddim yn meddwl eu gadael i newynu," fe ddywed yr esgob, "Dim o'r fath beth; fe ddylent gael eu helpu gan y rhai a werthfawrogant eu gwaith. Nid yw yn ddyledswydd ar yr eglwys i ddarparu moddion i annog dynion i fod yn anystyriol ac annoeth. Ni ddylent briodi mor ifeinc."

Y PARCH. DAFYDD LLWYD (LLWYN).

Fe adroddir am dano yn pregethu unwaith yn llc y Parch. Timothy Davies, Caeronen, ac yn dywedyd ar ei bregeth "y gallasai Judas fod yn y nefoedd oni bai ei ddrwg ei hunan." O herwydd dywedyd hyny, fe barodd anfoddlonrwydd mawr i rai o'r aelodau, a llwyddwyd i'w rwystro i ddyfod yno byth mwy. Ceisied y darllenydd sylweddoli y ffaith hona. A ydych wedi holi erioed, gyfeillion, beth ydyw telerau iachawdwriaeth? A oes rhywbeth i'w wneuthur genych chwi, fel y byddoch gadwedig? Onid ar eich *gwneyd* chwi y mae'r telerau yn dybynu pa un a gewch ddrws y nef yn agored neu yn nghau? Neu a ydych yn tybied fod y pwnc wedi ei gwbl benderfynu yn yr arfaeth draw yn nhragwyddoldeb, ac felly, yn hollol annybynol ar eich caracter, drwg neu dda, chwi? Beth ydyw barn pobl Caeronen heddyw am eiriau Dafydd Llwyd?

RHAGFARN.

Gallesid dysgwyl i ragfarn guddio ei ben mewn cwrdd gweddi, ond ymddengys nad yw hyny yn bossibl iddo yn un man y byddo. Cynaliwyd gwylnos yn ddiweddar—nid yw o bwys yn mha le. Yr oedd yno rai o wahanol enwadau yn bresenol. Bu yno ryw anhawsder yn

nghylch llyfr emynau. Cynnygiodd rhywun gopi o Salmau Iolo Morganwg yn absenoldeb gwell; ond ni wnai hwnw y tro, a gwrthodwyd ef. Yr hwn wrthododd y Salmau ddechreuodd y cwrdd, a gellir gweled wrth ei ddewisiad mai Bedyddiwr oedd. Mae'r gair *dwfr* yn yr emyn.

Dwfr y bywyd sy'n ffynnoni
Dan d'orseddfainc Di, fy Nuw;
Drwy'r holl fydoedd mae'n afoni,
Ffrwd ein hiechydwriaeth yw;
Ar ei glan mae'r saint yn canu,
Caf ar fyr fod gyda nhwy,
Lle mae dyben ar gwynfanu,
Lle nid oes wylofain mwy.—*Iolo Morganwg.*

Pan welodd Elmar, Esgob Llundain, yn amser Elizabeth, y gynnulleidfa un tro yn dra disylw o'i bregeth, fel y ceir cynnulleidfaoedd ambell waith, dechreuodd ddarllen Hebraeg, yr hyn a'u cynhyrfodd, a rhyfeddasant pa ddyben y gallasai fod. Yna, dangosodd iddynt eu ffolineb—eu bod yn esgeuluso'r Saesneg, trwy yr hwn y gallent ddwyn adeiladaeth, ac yn gwrandaw Hebraeg, o'r hwn nid oeddent yn deall un gair.—*Fuller.*

GOD'S GOVERNMENT GOOD.

Cyfieithad o Emyn 9.

Our Father God! who rulest all things well;
The hosts of heaven thy glorious wisdom tell;
Oh! wondrous hosts! they never break thy word;
Would that the world thus kept thy laws, O Lord.

Thy laws are good and righteous every one,
Thy counsel it shall stand, thy will be done:
From age to age thy dictates shall prevail,
Though thunders roar and furious storms assail.

Shall not the Judge of all the earth do right?
He's but in part revealed to man's short sight.
God's wisdom can, his love will, do no wrong,
And time will prove his judgments just ere long.

Mid all my earthly sorrows I would now,
To Him who is the Eternal, lowly bow;
He never willingly afflicts, but even
Through pain and sorrow leads his child to heaven.

My Father's will shall henceforth be my will:
When ill betides and good is absent still,
My song shall be, though storms should overwhelm,
The Lord is God, my Father's at the helm!

GAUTAMA BWDA.

Fe anwyd Gautama tua 500 cyn Crist, ac fe'i ganwyd pan oedd ei fam tua 45 oed; nid gartref, ond mewn man ac amser annysgwyliadwy, ar y ffordd i dŷ ei thad, yr hwn yr oedd hi yn awyddus i'w gyrhaedd cyn geni y plentyn. Mae yr adeg hon, 500 cyn Crist, yn adeg bwysig mewn ystyr grefyddol. Yr oedd Confucius, proffwyd mawr China, wedi ei eni efallai ychydig yn flaenorol. Tua'r adeg hon, yr oedd Pythagoras, yr athronydd Groegaidd, yn byw, ac Herodotus, yr hanesydd Groegaidd, yr hwn a elwir weithiau yn *father of history*. Tua'r adeg hon oedd Cyrus yn byw—adeg bwysig i'r Iuddewon, set adeg eu dychweliad o Babylon.

Gautama oedd yr enw personol; teitl neu swydd oedd Bwda, a'i ystyr, "yr un sydd yn gwybod," neu "yr un goleuedig." Yn ddiweddar yn ei fywyd y cafodd ef y teitl. Yr oedd ganddo enwau neu deitlau ereill, ac yn enwedig Sakya-Mwni, neu Sakya Ddoeth. Dygid y teitl Bwda gan ereill o'i flaen ef, rhyw 35 o honynt; ond efe yw y Bwda, yr hwn sydd megys wedi llyncu y rhai ereill i gyd, ac sydd wedi ei ddyrchafu gan ei ddysgyblion, nes yw i lawer o honynt megys Duw, yr unig Dduw a adwaenant ac a gydnabyddant. Am Gautama ei hunan, fodd bynag, yr ydym am ysgrifenu, ac nid am ei ddysgyblion.

Nid yw Gautama wedi gadael dim ysgrifau ar ei ol, ac ni wyddys ond ychydig neu ddim am dymhor boreu ei fywyd; ond y mae yn dra thebyg iddo briodi cyfnither, merch y Rajah o Koli. Dyma'r unig beth a wyddom am dano braidd, nes yw yn 29 oed, pan yn ddisymwth y mae yn gadael ei gartref, ac yn cyflwyno ei hun yn hollol i'r efrydiaeth o bynciau pwysig athroniaeth a chrefydd. Wedi ei ddwyn i fyny yn mhlith y Brahmaniaid, ceisiai ddylyn defodau eu crefydd hwy. Am chwe' mlynedd, bu fyw bywyd monach. Wedi hyny, dychwelodd i'w fywyd blaenorol yn mhlith dynion. Meddai, "Y mae pob peth yn ddiflanol ond gwirionedd. Rhodder i mi weled y gwirionedd, yna, achubaf fy enaid fy hun, a byddaf yn alluog i achub ereill oddiwrth drueni, cyfnewid, a marwolaeth." Ei unig amcan mawr oedd adnabod y gwirionedd, fel y gallai gynnorthwyo ereill. Yn methu cael boddlonrwydd mewn defodau a seremoniau, nac mewn dim a allai y Brahmaniaid ei ddysgu, ceisiai blymio dyfnderoedd ei enaid ei hun, ac yn y diwedd, daeth i argyhoeddiad cadarn a gwybodaeth berffaith, fel y tybiai, o ddeddfau bodolaeth. Daeth y man lle y cafodd ei weledigaeth nefol yn un o fanau cyssegredig India. Tra yn eistedd o dan bren ffigys, a'i wyneb at y Dwyrain, daeth o hyd i'r wyddor driphlyg sydd i achub dyn oddiwrth ei holl waeau. 1200 mlynedd wedi ei farwolaeth, fe welodd pererin o China yr hyn oedd yn pasio y pryd hwnw fel yr un pren cyssegredig. Tybia rhai fod yr un pren yn bodoli hyd heddyw, yn hytrach cangen o honi, yr hon a blanwyd yn Anuradhapura, yn Ceylon, tua 250 c.c., lle y mae yn tyfu etto, y pren hanesyddol hynaf yn y byd.

Mae y Ffrancwr enwog, M. St. Hilaire, yn rhoddi y farn ganlynol am Gautama:—"Nid wyf yn pryderu dywedyd, gyda'r un eithriad o Iesu Grist, nad oes, yn mhlith sylfaenwyr crefydd, yr un caracter mor bur neu mor gyffrous ag eiddo Bwda. Mae ei fywyd heb un spotyn. Mae ei wroldeb yn gyfartal i nerth ei argyhoeddiad. Mae ei esiampl yn gwbl ddifeius. Y mae efe ei hunan yn batrwn o'r holl rinweddau mae yn eu pregethu. Nid yw ei hunan-ymwadiad, ei garedigrwydd, ei dynerwch dibaid, byth yn pallu. Mae yn gadael llys ei dad yn 29 oed, i ddyfod yn fonach cardotawl. Mae yn byw mewn neilluedd chwe' mlynedd, i barotoi ei athrawiaeth. Mae yn ei daenu trwy allu syml ymresymiad am 50 mlynedd; a phan yn marw, yn mreichiau ei ddysgyblion, mae yn gwneuthur hyny gyda sirioldeb gwr doeth."

Gesyd St. Hilaire *ochr oleu* y *system* yn ei bod yn ymarferol neu *bractical;* ei hamcan yw achubiaeth pawb dynion rhag drwg, ei dibrisiad o bleserau isel a gwael; ei haelioni; ei syniad o gydraddoldeb; ei hymostyngiad; ei geirwiredd; ei pharch i'r bywyd teuluaidd.

Y diffygion a'r beiau a'i nodweddant, ydynt ddiffyg gallu i greu gwir fywyd cymdeithasol; ei thuedd i hunangarwch yn codi oddiar yr arferiad o fod yn wastad yn meddwl am hunan; ei diffyg o'r syniad o ddaioni fel peth sylweddol; ei hyspryd amheugar; ei hanobaith anwelladwy; ei dirmyg hollol o fywyd; ac yn ddiweddaf, ei atheistiaeth.

Mewn Bwdaeth, gadewir dyn iddo ei hunan. Nid oes dim Dwyfol ysprydoliaeth, dim *help* oddiuchod. Mae uchod oll yn dywyll. Nid oes dim goleuni oddiwrth un gallu uwch. Mae Karma, neu Dynghedfan, yn llethu yr enaid. Mae y meddyliau ysprydoleiddiol o bersonoliaeth dynol parhaol, o ryddid personol, o achos Goruchaf, yn diflanu.

Os yw y Bwda yn dduw, nid yw ond un o gyfres. Mae y duwiau oll yn feidrol, amserol, a hollol ddynol.

Mae y teimlad o'r Anfeidrol, y Perffaith, yn diflanu mewn Bwdaeth, gyda'r canlyniad ei fod yn dinystrio pob gobaith, ac yn arwain i wareiddiad difywyd, dideimlad, yn holl genedloedd Bwdyddol. Crefydd, fel dyhead am y perffaith yw ffynnonell y mudiad. Y meddylddrych o'r anfeidrol a'r tragwyddol Dduw personol, yr hwn sydd hefyd yn dad a chyfaill, dyma yw *motive power* gwareiddiad Cristionogol. Nid yw y gallu hwn i gyfuno Duw â dyn, amser a thragwyddoldeb, mewn un meddylddrych o Dduw "goruwch oll, a thrwy oll, ac yn oll," i'w gael yn nghrefydd y Bwda.

Diffyg arall yw yr absenoldeb o'r teimlad o allu creadigol yn y bydysawd.

Mae Rhagluniaeth yn absenol hefyd. Dyn yw ei lachawdwr ei hunan. Gesyd ddoethineb yn lle Rhagluniaeth.

Y rheswm nad oes cynnydd yn ngwledydd Bwda, yw yr angen o ffydd yn yr Anfeidrol a'r Meidrol. Fel y mae Brahmaniaeth yn colli y Meidrol, mae Bwdaeth yn colli yr Anfeidrol. Ceidw Cristionogaeth y ddau.

Terfynwn, gydag ychydig enghreifftiau o addysg Bwda. (1) Ymgadw oddiwrth bob pechod. (2) Ceisio rhinwedd. (3) Cadw calon lân. **Dyma ydyw crefydd y Bwda.**

Y LLWYBR CANOL.

1. Iawn gredu.
2. Iawn deimlo.
3. Iawn lefaru.
4. Iawn weithredu.
5. Iawn foddion cynnaliaeth.
6. Iawn ymdrech.
7. Iawn gofio.
8. Iawn fyfyrdod.

Yr oedd yr angen o lynu wrth y llwybr canol hwn o fywyd rhinweddol yn deilliaw oddiwrth y pedwar gwirionedd sylfaenol, sef yw, y rhai hyn: Dyoddefaint, Achos dyoddefaint, Diwedd dyoddefaint, y Llwybr yn arwain i'r diwedd hwnw.

1. Mae genedigaeth yn dwyn tristwch; tyfiant, darfodedigaeth, afiechyd, marwolaeth, oll yn achosi tristwch; ymraniad oddiwrth gyfeillion a garwn; cashau peth na allwn ei ochelyd; crefu am yr hyn na allwn ei gael; yn fyr, y cyfryw gyflyrau meddwl ag a gydfodolant a'r ymwybodolrwydd o bersonoliaeth, gyda theimlad o fodolaeth wahanol, y mae y cyfryw yn gyflyrau o ddyoddefaint a thristwch.

2. Mae gweithrediad y byd allanol ar y synwyrau yn cyffroi syched dwfn am rywbeth i'w ddiwallu, neu ymhyfrydwch yn y gwrthddrychau a ddygir gerbron, mae pob un o'r rhai hyn yn cael ei ganlyn gan drachwant bywyd.

3. Concwest gyflawn a dinystr y syched hwn, a'r trachwant hwn, yw yr hyn a bair i'r tristwch beidio.

4. Y llwybr sydd yn arwain i dristwch beidio yw y Llwybr wythplyg ardderchog y soniwyd am dano eisoes.

Yn olaf, yr oedd y Bwda yn tystio iddo gyrhaedd yr argyhoeddiadau hyn, nid trwy y Vedas, neu y llyfrau sanctaidd, na thrwy addysg ereill, ond trwy ei reswm a'i oleuni mewnol ei hunan.

Meddai un—

1. Llawer o angylion ac o ddynion
Ydynt wedi ystyried amrywiol bethau yn fendithion,
Pan fyddent yn awyddu am ddedwyddwch.
Dyro di i ni wybodaeth am y daioni penaf.

Gautama a atebodd—

2. Peidio gwasanaethu y ffol,
Ond gwasanaethu y doeth;
I anrhydeddu rhai teilwng o anrhydedd:
Dyma y fendith fwyaf.

3. Byw mewn gwlad hyfryd,
Gweithredoedd da wedi eu cyflawnu mewn bywyd blaenoro
Iawn ddymuniadau yn y galon:
Dyma y fendith fwyaf.

4. Gweledigaeth clir ac addysg dda,
Hunan-lywodraeth a iaith felus,
A pha air bynag a lefarir yn dda:
Dyma y fendith fwyaf.

5. Cynnal tad a mam,
Meithrin gwraig a phlentyn,
Dylyn galwedigaeth heddychlawn:
Dyma y fendith fwyaf.

6. Cyfranu elusen a byw yn gyfiawn,
Rhoi help i berthynasau,
Gweithredoedd nas gellir eu beio:
Dyma y fendith fwyaf.

7. Cashau a gadael pechod,
Llwyr ymwrthod â diodydd cryfion,
Peidio blino mewn gwneuthur daioni:
Dyma y fendith fwyaf.

8. Parch a gostyngeiddrwydd,
Boddlonrwydd a diolchgarwch,
Gwrando'r Ddeddf ar adegau pennodol:
Dyma y fendith fwyaf.

9. Bod yn hir-ymarhous ac yn addfwyn,
Cymdeithasu a'r heddychlawn,
Ymddyddan grefyddol ar adegau priodol:
Dyma y fendith fwyaf.

10. Hunan-lywodraeth a phurdeb,
Gwybodaeth o'r Gwirioneddau arddechog,
Sylweddoliad Nirvana:
Dyma y fendith fwyaf.

11. Y meddwl sydd ddisigl,
Heb drallod na nwyd, ond sydd gadarn
O dan ergydion cyfnewidadau bywyd:
Dyma y fendith fwyaf.

12. Ar bob tu y maent yn anorchfygol,
Y cyfryw a weithredant fel yma,
Ar bob tu y rhodiant mewn dyogelwch:
Ac eiddynt yw y fendith fwyaf.

Manion a Hanesion.

Nos Sul, Mawrth 27, gorphenodd gweinidog H.D.C. Aberdar, ei ail gyfres o ddarlithiau yn ystod y Gauaf. Gobeithiwn iddynt fod o ryw les. Yr oeddynt wedi eu bwriadu yn neillduol ar gyfer rhai mewn cyflwr o amheuaeth.

Nid oes copi i'w gael o *Grwth Dyffryn Clettwr* er ys llawer dydd, ac y mae galw mynych am dano. Pa gynnorthwy geid i gyhoeddi argraffiad newydd?

Bydd yn dda gan ein darllenwyr ddeall fod y Barch. E. W. Lloyd yn gwella yn raddol o glefyd hir a phoenus sydd wedi ei gyfyngu i'r ty am yn agos i chwe' mis. Y mae wedi dechreu pregethu.

Cofier fod cwrdd y Pasc i fod yn Hen Dy Cwrdd Aberdar.

Mae *Banau y Ffydd Undodaidd*—cyfieithad y Parch. T. T. o lyfr rhagorol Dr. Freeman Clarke—allan o'r Wasg. Anfoner at y Parch. W. James, B.A., Llandyssul. Dylai pob Undodwr wneuthur ei ran i'w ddosparthu. Anfonir copi gan y golygydd ar dderbyniad deg stamp dimai.

Deallwn fod y Parch. J. B. Lloyd (brawd Lloyd, Cwmbach, yw efe) wedi cael derbyniad gwresog iawn i'w faes newydd yn Essex.

Y mae mwyafrif ysgrifau Iolo Morganwg yn meddiant Arglwyddes Llanofer; ond ymddengys fod llawer yn dal perthynas â Iolo yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain, wedi eu trosglwyddo yno, efallai, gan Gymdeithas y Cymmrodorion. Cyhoeddir dau lythyr i Iolo yn y rhifynau diweddaf o'r *Red Dragon* a'r *Geninen*—un yn mhob un. (*Additional MSS.*, 15024). Dywedodd un o lenorion penaf Cymru wrthym yn ddiweddar y dylid gwneuthur ymdrech i gyhoeddi holl weithiau llenyddol Iolo.

Mae pob plentyn sydd yn cael ei adael i yrfa o drosedd yn sicr o gostio arian mawr i'r wladwriaeth; yr un wedd mae'r hwn a ddygir i fyny i ddiwydrwydd ac ymddygiad da yn werth miloedd o bunnau i'r wladwriaeth.—*Prof. Leone Levi.*

Os caiff Yr Ymofynydd fyw, ac y mae hyny yn dybynu ar ereill yn fwy nag arnom ni, carem i'r misoedd nesaf fod, i ryw raddau yn adsain o flwyddyn y Juwbili. Ni fydd niwed cofio mai Medi, 1847 (deugain mlynedd yn ol) oedd rhifyn cyntaf Yr Ymofynydd.

Prydnawn dydd Sul, Chwefror 27ain, talodd Ysgol Sul Bedyddwyr Llanllwni, cangen o Aberduar, eu hail ymweliad â'u brodyr Undodaidd yn Alltyplaca. Teilwng yw dweyd iddynt fyned trwy eu gwaith yn ganmoladwy iawn. Yr oedd yr adrodd, yr ateb, a'r canu yn wir dda. Rhag eich blaen, gyfeillion Cristionogol, a bendith Duw ar ymdrechion eich llafur.

Alltyplaca.—Cafodd Ysgol Sul y capel uchod wledd wrth ei bodd prydnawn dydd Mercher, Chwefror 21ain. Er fod yr hin dipyn yn anffafriol, daeth nifer lluosog o blant a chyfeillion yr achos da i'r wyl, ar gyfer y rhai yr oedd darpariaeth lled helaeth o dê a bara brith wedi ei pharotoi gan Mrs. Davies, Lowtre, a Miss Evans, Maesmeillion, y rhai fuont ar eu goreu yn gwneyd y wledd y peth oedd—yn un na cheir ei chyffelyb ond yn anaml. Derbynied Miss Evans, Llysfaen House, Llanybyther, ein diolchgarwch gwresocaf am eu rhan hithau yn cyfranu at draul y wledd. Yn yr hwyr, cafwyd cyfarfod llenyddol o radd uchel, dan lywyddiaeth gweinidog y lle. Yn ol cynllun arferol y cyfarfod, cafwyd anerchiadau gan y beirdd, pwrpasol iawn ar yr achlysur, ac adroddwyd amryw ddarnau yn ddyfyrus gan ddeiliaid yr Ysgol Sul, a chanwyd nifer o donau yn swynol gan gôr y lle, yn cael eu cynnorthwyo gan Glee Party Blaenwaunganol. Diamheu fod pawb oeddynt yn bresenol wedi cael gwledd i'r corff a'r meddwl. Melus, moes etto, yw dymuniad llawer.

DEDDF CARIAD.

Cloddia redwelïau dyfnion,
Lle gall cariad ffrydio'n gysson;
A gwnaiff ffrwd gorlifol cariad
Eu gorlifo oll yn wastad.

Ond os peidi unrhyw amser
Ddarpar felly ar ei gyfer,
Ffynnon cariad oll yn fuan
Sych i fyny i ti dy hunan.

Rhaid yw i ti o bob daioni,
Er ei gadw ei rwydd gyfranu;
Rhoi a derbyn, hyn yn wastad
Yw rhagorol ddeddf gwir gariad.
—*Archesgob Trench.*

RHAGLUNIAETH.

Os trwy anial blin cawn rodio,
Os trwy lwybrau dyrus deithio,
Ac mewn t'wyllwch fynych grwydro;

Etto o ddylyn ein Harweinydd,
Cawn y ffordd trwy'r garwaf dywydd,
Draw'n terfynu mewn nefol-ddydd.
—*Archesgob Trench.*

GWAS DA.

Gwas i'r gwir â'i hollgais, ar g'oedd—ei
Gwas doeth ei weithredoedd; [dŷ,
Gwas araf, ufuddaf, oedd,
Gwas didwyll, gwas Duw ydoedd.
—*Amnon.*

Y mae hyn yn syn resynol,
Fod tymher dyn mor gyfnewidiol;
O dan y bregeth heddyw'n cysgu,
Effro iawn'n y ffair yfory;
Llwyr annghofus o'r Ysgrythyr,
Cofus o wendidau'i frodyr.
—*D. Ddu Eryri.*

PRIODAS.

Chwefror 26, yn nghapel Caersalem (B.), ger Llanbedr, gan y Parch. Henry James, Mr. Thomas Evans, Llwynbedw, Llanwnen, a Miss Martha Lloyd, Ddolgwmucha, Pencarreg.

Marwgofion.

Tachwedd 19, 1886, Rachel, gwraig Thomas Rees, East Road, Tylor's Town, gynt o Gwmdar, yn 71 oed. Claddwyd hi yn Mhenderyn. Yr oedd wedi bod yn aelod am flynyddoedd yn H.D.C., Aberdar.

Bu farw Sarah Jones, Waunbwll, Dihewid, Rhagfyr 15, 1886, yn 71 oed. Claddwyd hi y Sadwrn canlynol yn Mynwent y Plwyf. Pregethodd T. T. yn y tŷ. Rhagfyr 21, 1886, yn 2 flwydd oed, bu farw Thomas Davies, Ffynnonau, Llandyssul. Claddwyd ef y Gwener canlynol yn Pantdefaid. Gweinyddwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan T. T.

Ionawr 9, yn 74 oed, bu farw Mary Jones (Mary Jacob), Talgarreg. Claddwyd hi yn Mynwent Bwlchyfadfa, y dydd Iau canlynol. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Ionawr 19, yn Glynmene, bu farw Anne Jones (Nani John), yn 77 oed. Y dydd Gwener canlynol, claddwyd hi yn Llandyssul, sef yn mynwent y plwyf. Pregethodd T. T. yn y tŷ annedd. Yr oedd yr ymadawedig yn hanu o dylwyth Jones Pantdefaid gynt.

Ionawr 27, yn 86 oed, Anne Evans, Pencarniced, Llandyssul, a chladdwyd hi yn Pantdefaid y dydd Llun canlynol. Pregethodd y Parch. T. T. yn y capel. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i'r diweddar James Isaac, enwog fel cantor yn ei ddydd yn Pantdefaid.

Ionawr 28, yn 59 mlwydd oed, bu farw William Jones, Yswain, Llwynygroes, a chladdwyd ef y dydd Mercher canlynol, yn Llanwnen. Eglwyswr oedd Mr. Jones, a thraddodwyd ei bregeth angladdol, y Sul cyntaf ar ol hyny, yn y Llan, gan Beriglor y Plwyf. Dydd Sul, Chwefror 13, traddododd y Parch. T. T. bregeth er coffadwriaeth am yr ymadawedig yn Capel y Groes, oddiwrth Diar. xx. 7. Yr oedd Mr. Jones yn Eglwyswr rhydd a diragfarn iawn. Dywedodd wrth yr ysgrifenydd unwaith ei fod yn dra chul ei feddwl, pan y daeth i'r gymmydogaeth gyntaf, yn enwedig tuag at yr Undodiaid, ond ei fod, erbyn hyny, wedi cael ei nawseiddio gymmaint, ac yn barod i gyfaddef y gallai yr Eglwyswyr fod yn gamsyniol, a'r Undodiaid yn iawn. Yr oedd Mr. Jones yn *Dep. Lieut.*, yn Gadeirydd Bwrdd y Gwarcheidwaid yn Llanbedr, ac yn mhob ystyr, yn un o'r boneddwyr mwyaf defnyddiol yn y wlad. Gadawodd weddw (merch y diweddar Mr. Hughes, Neuaddfawr), a thri-ar-ddeg o blant, i alaru ar ei ol. "Gwyn eu byd ei blant ar ei ol ef" os y rhodiant yn llwybrau eu tad.

Chwefror 8, yn 47 oed, Sarah Davies, Brownhill, New Quay, a chladdwyd hi yn y Llwyn ar yr 11eg canlynol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan T. T.

Chwefror 15, yn 11 oed, Jenkin, unig fab John a Sarah Thomas, Glanclettwr, Llandyssul, a chladdwyd ef yn Tregroes y dydd Gwener canlynol.

Chwefror 19, yn dri mis oed, Margaret, cyntafanedig Evan a Mary Walters, Pencarniced, a chladdwyd hi yn Pantdefaid y dydd Llun ar ol hyny. Gweinyddodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Mawrth 2, mewn modd disymwth iawn, yn 68 oed, Timothy Jones, gynt Bwlchygwynt, ger y Cribin. Yr oedd ein brawd ymadawedig yn Undodwr hollol argyhoeddedig oddiar ymchwiliad meddwl dwfn a deallus. Ni chymmerai ef ei gylchar-wain gan bob awel dysgeidiaeth, ond bob amser yr oedd ganddo farn o'i eiddo ei hun. Gadawodd weddw a dau fab a thair merch i alaru ar ei ol. Y dydd Sadwrn canlynol, hebryngwyd ei weddillion marwol i dŷ ei hir gartref yn mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y tŷ a'r capel gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Bydded i'r galarwyr oll geisio ymddiried yn yr Hwn sydd yn trefnu pob peth, ac felly, i gael nerth i alaru yn gymmedrol.

Mawrth 15, yn 58 oed, Mr. Evan Thomas, Bryncwnrig, Aberdar. Yr oedd Mr. T. yn un o brif sylfaenwyr yr achos Seisnig yn Aberdar, a bu yn bleidiwr haelionus hyd adeg cau y capel yn 1882. Teimlai efe yn flin iawn o herwydd cau y capel, ac ato ef, yn benaf, yr edrychid yn ddiweddar am gael ei agor. Yr oedd yn ddyn a garai wneuthur daioni, ac fe 'i gwnelai ag un law mor ddidwrw, fel nad oedd y llaw arall yn gwybod. Efe ydoedd dyfeisydd y "Bonnetted Clanny Lamp," a pherchenog y Cambrian Lamp Works.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—J.D., Capelygroes; W.H., Cefncoed.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YN NGHYMRU.

Hanner Casgliad H.D.C. Aberdar, £1 9s.; R. Bedlington, Ysw., £1; Hanner Casgliad H.D.C. at y British and Foreign, £1 9s. 3c.

CWRDD Y PASC.

Hen Dy Cwrdd Aberdar. Pregethwr, y Parch. R. C. Jones; yn Saesneg, y Parch. Hobart Clarke. Pwnc y Gynnadledd, "Efengyl Iesu Grist." Darllenir papyr arno gan y Parch. W. James, B.A.

Yr Oedfaon:—Nos Fercher am 7; dydd Iau am 10.30, 2.30, 6 30.

Anfonir copi o Raglen yr Emynau gyda'r post am 1½c.

EMYNAU O FAWL A GWEDDI.

Anfonir copi (*specimen*) rhwym yn rhydd gyda'r *post* am 2s.

YN AWR YN BAROD

"BANNAU FFYDD UNDODWR,"

Wedi ei gyfieithu gan y

PARCH. T. THOMAS, PANTDEFAID.

Anfoner *orders* oddiwrth Ysgolion Sul ac ereill yn ddioedi at y PARCH. W. JAMES, *Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*

LLYFR CYNTAF I BLANT YR YSGOL SUL

(AIL ARGRAFFIAD),

Gan y diweddar Barch. JOHN JONES, ABERDAR.

PRIS—DWY GEINIOG.

Gwerthir 100 o'r uchod yn ol 12 swllt y cant; a dwsin am 1s. 6c.